**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/DB/1014/25

Peter Fox AS
Y Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
SeneddIechyd@senedd.cymru

2 Mai 2025

Annwyl Peter,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 11 Ebrill lle ymatebais i argymhellion 6 a 13 o adroddiad craffu cyfnod un y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), rwyf yn awr yn rhoi ymateb o sylwedd i argymhellion pellach.

**Argymhelliad 9**

Yn unol ag argymhelliad 9, gweler ynghlwm adroddiad ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Dyma'r adroddiad cyntaf sydd wedi'i gyhoeddi ac mae'n darparu gwybodaeth fanwl am nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant. Mae'n tynnu sylw hefyd at sefydlogrwydd lleoliadau a'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod anghenion a hawliau plant yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Hoffwn ddiolch i bartneriaid ledled Maethu Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant am y cymorth a'r wybodaeth y maent wedi'u rhoi i'm swyddogion wrth lunio'r adroddiad hwn. Ar y cyd, mae ymdrechion ar y gweill i gysoni'r gwaith o gasglu'r gwahanol elfennau data ac adrodd arnynt i sicrhau bod cyhoeddiadau pellach o'r adroddiad hwn yn y dyfodol mor gynhwysfawr a chyson â phosibl. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r rhaglen waith sy'n sail i Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw.

Nodaf fod cais ychwanegol wedi'i gynnwys yn argymhelliad 9 eich adroddiad yn ymwneud â manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y Bil. Roedd fy ymateb i'r cais hwnnw wedi'i nodi yn rhannol yn fy llythyr blaenorol atoch o dan argymhelliad 13 (ymrwymo i gynhyrchu adnoddau hygyrch gyda'r nod o hysbysu plant a phobl ifanc am y Bil a sut i fynegi eu barn arno). Amlinellwyd y gwaith yr ydym wedi'i wneud gydag aelodau Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw, yn ogystal â Voices from Care Cymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, i lunio negeseuon wedi'u targedu, a'u profi, er mwyn rhoi gwybodaeth am y trefniadau newydd i blant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal maeth ac mewn cartrefi plant, a gwella'u dealltwriaeth ohonynt. Nodwyd hefyd ein bod yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gellir dod o hyd i'r negeseuon sydd wedi'u cyhoeddi yn https://www.llyw.cymru/newid-i-fodelau-gofal-nid-er-elw-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-yng-nghymru-taflenni-gwybodaeth.

**Argymhellion 17 ac 20**

Mewn ymateb i argymhellion 17 a 20, rwy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan ganolog ar gyfer taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus y GIG a'r cynnydd sydd wedi'i wneud i baratoi byrddau iechyd lleol at y cyfrifoldebau newydd yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol gofal iechyd parhaus.

Argymhelliad 17: yn dilyn pasio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'r trafodaethau â Chyd-bwyllgor Comisiynu'r GIG ynghylch iddynt gynnal y ganolfan ganolog arfaethedig i gefnogi'r gwaith o weithredu taliadau uniongyrchol. Mae bwrdd y Cyd-bwyllgor Comisiynu wrthi'n ystyried y cynnig ffurfiol ar gyfer datblygu Canolfan Taliadau Uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus yn elfen o'r rhaglen waith ehangach ar gyfer gofal iechyd parhaus. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn i'r pwyllgor yn rhan o'r diweddariad chwe mis nesaf.

Wedi ymwneud diweddar â rhanddeiliaid, caiff ei gydnabod, er y gellid canoli rhai swyddogaethau ledled Cymru (er enghraifft, lledaenu gwybodaeth, cynnig arweiniad, a meysydd cymorth fel cyllidebu, llywodraethiant, hyfforddiant a thasgau gofal iechyd dirprwyedig), mae'r gallu i helpu'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol yn yr ardal lle maent yn byw yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig. O ganlyniad, mae model cyflawni cymysg wrthi'n cael ei ystyried ac yn rhan o hyn, mae gwaith ymgysylltu â thimau taliadau uniongyrchol Awdurdodau Lleol yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector wedi'i gynnal er mwyn dysgu o'u profiadau ac ystyried ym mha ffordd y gallent gyfrannu orau at ddarparu taliadau uniongyrchol gofal iechyd parhaus. Mae hyn yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu.

Argymhelliad 20: Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyswllt rheolaidd wedi'i gynnal â byrddau iechyd lleol, yn ogystal â thrafodaethau â swyddogion arweiniol gofal iechyd parhaus bob deufis. Yn ogystal â chael gwybod am gynnydd y Bil, mae byrddau iechyd lleol, ochr yn ochr â'u cyfoedion, wedi cael cyfle drwy'r rhwydwaith hwn i ystyried eu cyfrifoldebau newydd yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol gofal iechyd parhaus. Mae gan fy swyddogion gyswllt agos â'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, ochr yn ochr â chynnal trafodaethau ehangach ar lefel arweinyddiaeth y GIG. Yn gynharach y mis hwn, rhoddwyd ymgysylltu pellach ar waith ag arweinwyr gofal iechyd parhaus i ystyried nifer o faterion allweddol sy'n berthnasol i gyfrifoldebau newydd y byrddau iechyd lleol. Yn ogystal â dysgu o arferion gorau yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol y tu allan i Gymru, fel y nodwyd uchod, mae fy swyddogion wedi ymwneud â thimau taliadau uniongyrchol awdurdodau lleol i ddeall yn well y prosesau a'r arferion presennol llwyddiannus o ran darparu taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio trafodaethau â byrddau iechyd lleol, gan gynnwys trafodaethau ynghylch pa swyddogaethau a fyddai'n cael eu darparu orau yn lleol neu'n ganolog. Bydd y gwaith hefyd yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu trefniadau pontio di-dor o ofal cymdeithasol i ofal iechyd parhaus.

Yn gywir,


**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

# Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal –trosglwyddo i fodel nid-er-elw

**Adroddiad 1 - Ebrill 2025**

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cyflwyniad a strwythur yr adroddiad** | 3 |
| **Crynodeb o'r adroddiad a'r camau nesaf** | 4 |
| **Adran 1** – Nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer gofal preswyl, maethu a llety diogel | 7 |
| **Adran 2** – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – Cartrefi plant | 10 |
| **Adran 3** – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – Maethu | 14 |
| **Adran 4** – Sefydlogrwydd Lleoliadau | 17 |
| **Adran 5** – Cynigion Eiriolaeth | 20 |

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar y pryd ar 11 Hydref 2024. Nododd Argymhelliad 9 o'r adroddiad hwnnw:

*Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd o ran trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Dylai hyn gynnwys diweddariad, fesul awdurdod lleol, ar nifer y lleoliadau sy'n ymadael â'r farchnad a nifer y lleoliadau newydd a grëwyd, a dylai fyfyrio ar sefydlogrwydd y lleoliadau presennol. Dylai hefyd gynnwys manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, gan ddechrau o ddyddiad dadl Cyfnod 1.*

Derbyniodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yr argymhelliad hwn ac ymrwymodd i gyhoeddi adroddiad ar gynnydd bob chwe mis. Dyma'r cyntaf o'r adroddiadau hyn - bydd y nesaf yn dilyn ym mis Hydref 2025.

# Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n adrannau, gan ddechrau gyda chrynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad a chan nodi'r camau nesaf. Lle bo modd, mae data preswyl a maethu wedi'i rannu'n batrymau daearyddol lleol ar draws y mathau canlynol o ddarpariaeth:

<table>
<tr><th>Darpariaeth nid-er-elw</th><th>Darpariaeth er-elw</th></tr>
<tr><td>Yn cael ei rhedeg gan yr Awdurdod Lleol (ALl)</td><td rowspan="2">(nid yw'r data hwn wedi'i ddadansoddi yn ôl math penodol o ddarpariaeth er-elw)</td></tr>
<tr><td>Sefydliadau nid-er-elw eraill (nad ydynt yn ALl)</td></tr>
</table>

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei mesur o ran nifer y gwasanaethau a'r lleoedd (uchafswm capasiti pob gwasanaeth) sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cyflwynir rhywfaint o ddata maethu hefyd o ran aelwydydd.

Mae Adran 1 yn rhoi trosolwg o'r sector yng Nghymru fel y mae ar hyn o bryd, gan roi data diweddar ar nifer y gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel, gan ddadansoddi hyn yn ôl math o ddarparwr (awdurdod lleol nid-er-elw, darparwyr nid-er-elw eraill neu er-elw) ac ardal awdurdod lleol. Dyma'r tri gwasanaeth y bydd angen iddynt i gyd gael eu darparu gan awdurdod lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill pan fydd gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("Y Ddeddf") wedi'i gwblhau.

Mae adran 2 yn ymdrin ag ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cartrefi plant ac mae adran 3 yn ymdrin â'r un data ar gyfer gwasanaethau maethu. Mae'r adroddiad wedyn yn myfyrio ar sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn adran 4 gan gloi gyda data ar y defnydd o'r cynnig o eiriolaeth statudol yn adran 5.

## Crynodeb o'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth fanwl o sawl ffynhonnell am nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer gofal preswyl, maethu a llety diogel yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw hefyd at sefydlogrwydd lleoliadau a'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod anghenion a hawliau plant yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae'r pwyntiau allweddol o'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'u nodi isod:

1. **O'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (ar 31 Mawrth 2025) mae 350 o wasanaethau cartrefi plant yng Nghymru sy'n cynnig uchafswm o 1,224 o leoedd. Mae darpariaeth er-elw yn cyfrif am dros dri chwarter o'r holl leoedd preswyl.**

   Mae'r gyfran fwyaf o leoedd i'w gweld yn ardaloedd daearyddol Rhondda Cynon Taf (RhCT) (102), ac yna Caerdydd (100), Powys (94) ac Abertawe (89).

   Mae'r gyfran fwyaf o wasanaethau cartrefi plant er-elw i'w gweld yn ardal Blaenau Gwent (17 gwasanaeth, 41 lle) a Thorfaen (13 gwasanaeth, 29 lle) y ddau ohonynt yn rhai er-elw yn gyfan gwbl. I'r gwrthwyneb, nid oes gan Geredigion unrhyw wasanaethau cartrefi plant er-elw, a 6 lle yn gyffredinol nad ydynt yn cael eu rhedeg gan ALl.

2. **Mae cyfran sylweddol o'r ymunwyr â'r farchnad cartrefi plant wedi bod yn rhai er-elw hyd yn hyn.**

   Mae data rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025 yn dangos bod 21 o'r 25 o wasanaethau wedi'u cofrestru gydag AGC a bod 52 o'r 57 o leoedd yn rhai er-elw. Roedd y 4 gwasanaeth (a'r 5 lle) arall wedi'u cofrestru i awdurdod lleol. I'r gwrthwyneb dim ond 4 gwasanaeth er-elw (a 7 lle) a ymadawodd â'r farchnad yn ystod y cyfnod hwn.

3. **Ar hyn o bryd mae'n anodd asesu data maethu manwl. Mae'r mwyafrif helaeth o aelwydydd a lleoedd maeth yn rhai nid-er-elw. Yn Ne Cymru y mae'r cyfrannau uchaf o ddarpariaeth faethu nid-er-elw. Mae'r ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru yn tueddu i fod yn ddarpariaeth er-elw.**

   Ar hyn o bryd mae'n anodd gwneud cymariaethau cyffredinol o ddata maethu ar gyfer yr adroddiad hwn, o gofio'r gwahanol gylchoedd adrodd ac argaeledd gwybodaeth o wahanol sefydliadau. Darperir y rhan fwyaf o ddata maethu ar gyfer y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025. Er hynny, mae data ar gyfer cyfanswm nifer yr aelwydydd a lleoedd maethu ar gael hyd at 31 Mawrth yn unig ac mae wedi'i gynnwys ar sail Cymru gyfan. Bydd Maethu Cymru, sy'n casglu data maethu'r awdurdodau lleol, yn dadansoddi'r set ddata ar gyfer y flwyddyn adrodd 2024/25 yr haf hwn a bydd ar gael i'w chynnwys yn yr adroddiad nesaf.

4. **O'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (ar 31 Mawrth 2025) mae 22 o wasanaethau maethu nid-er-elw ac er-elw yng Nghymru gyda 983 o aelwydydd maethu yn cynnig 2081 o leoedd. O'r rhain mae 794 o aelwydydd a 1,693 o leoedd yn rhai er-elw.**

   O'r data sydd ar gael ar gyfer pob ardal leol (h.y. darpariaeth nid-er-elw a darpariaeth er-elw nad yw'n cael ei rhedeg gan ALl), Caerdydd oedd â'r nifer fwyaf o ddarpariaeth er-elw (225 o 292 o leoedd maethu) ac yna Sir Gaerfyrddin (157 o 167 o leoedd maeth). Wrecsam sydd â'r gyfran fwyaf o leoedd maethu er-elw (52 o 53 neu 98%). Sir Ddinbych a Sir y Fflint yw'r unig awdurdodau nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaeth nid-er-elw nad yw'n cael ei rhedeg gan ALl yn eu hardaloedd.

   Ar gyfer gwasanaethau maethu sy'n cael eu rhedeg gan ALl o'r ffigurau diweddarafsydd ar gael ar gyfer y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, darparodd y 22 o wasanaethau maethu sy'n cael eu rhedeg gan awdurdod lleol yng Nghymru 2,609 o aelwydydd maethu a 4,144 o leoedd maethu.

5. **Mae'r mwyafrif o blant wedi cael un lleoliad yn unig yn ystod y flwyddyn.**

   Yn genedlaethol, roedd gan y mwyafrif helaeth (74% neu 5,310) o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2024 un lleoliad o fewn y flwyddyn. Roedd gan 18% (1,265) o blant brofiad o ddau leoliad ac roedd gan 9% (620) o blant brofiad o dri lleoliad neu ragor. Ar gyfartaledd, mae gan 241 o blant mewn ardal leol brofiad o un lleoliad. Yn yr un modd, bydd gan 58 ym mhob ardal ddau leoliad a bydd gan 28 dri neu ragor.

   Mae llawer o amrywiad ledled Cymru. Er bod gan Gaerdydd lawer mwy o blant sy'n derbyn gofal, mae ardaloedd eraill wedi gweld cyfran uwch o 3 neu ragor o leoliadau, gan gynnwys Sir y Fflint a Phowys (13%, o'i gymharu â 9% yng Nghaerdydd). Mae'n werth cofio, er hynny, y gellir ystyried bod mesur o symudiad yn arwydd o gynllunio gofal amserol ac yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion penodol.

6. **Mae rhai awdurdodau lleol wedi gweld cymhareb uchel o eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei darparu ar ôl i gynnig gweithredol gael ei wneud**

   Darparwyd eiriolwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn 64 o 71 (90%) o gynigion gweithredol; roedd gan Ferthyr Tudful gymhareb debyg hefyd gyda 54 o eiriolwyr o 60 o gynigion ac roedd gan Gastell-nedd Port Talbot gymhareb o 89% gyda 55 o eiriolwyr o 62 o gynigion gweithredol. Nododd awdurdodau lleol eraill nifer uwch o gynigion (Powys gyda 485 o gynigion, Conwy gyda 494), er na welsant enillion yr un mor uchel mewn darpariaeth.

## Y Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2025 ac wedi hynny bob chwe mis. Cyn yr adroddiad nesaf, bydd gwaith yn parhau i ddod â'r gwahanol ffynonellau data, cyfnodau adrodd a phwyntiau coladu rhwng partneriaid sector ynghyd i sicrhau gwell cysoni lle bo'n ymarferol. Bydd y cysoni hwn hefyd o fudd i gynllunio ar draws y sector fel rhan o'r gwaith gweithredu. Mae trafodaethau eisoes ar y gweill gyda chydweithwyr yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Maethu Cymru a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant i fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol a bydd gwaith i fynd i'r afael â data maethu yn cael ei symud ymlaen fel rhan o'r rhaglen waith sy'n sail i Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw.

Mae Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â phartneriaid cyflenwi yn parhau i ymgysylltu â darparwyr er-elw a'r sector ehangach i gefnogi'r rhai sy'n ystyried ailymsefydlu fel endid nid-er-elw. Mae hefyd yn darparu cyllid tair blynedd i Cwmpas i ddarparu cymorth i'r sefydliadau hynny sy'n dymuno ystyried newid eu modelau busnes i fodelau nid-er-elw.

Yn ddiweddar, cynhaliodd swyddogion weithdai gwybodaeth ar y Ddeddf gyda darparwyr er-elw ac mae ymgysylltu a chymorth pellach wedi'i gynllunio fel rhan o'r rhaglen weithredu. Mae AGC wedi bod yn sicrhau hefyd fod darparwyr er-elw newydd sy'n ceisio cofrestru yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r amserlen weithredu, gan gynnwys y terfynau ar eu gweithgarwch yn y dyfodol.

## Adran 1 - Nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer gofal preswyl, maethu a llety diogel

Tabl 1a: Nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig ac uchafswm y lleoedd cofrestredig (ar 31 Mawrth 2025)

***Ffynhonnell:*** *AGC*

| | Nifer y **gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig** | | | | Nifer yr **uchafswm lleoedd cofrestredig** yng nghartrefi plant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) | Nid-er-elw (Arall) | Er-elw | **Cyfan swm** | Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) | Nid-er-elw (Arall) | Er-elw | **Cyfan swm** |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 17 | **17** | 0 | 0 | 41 | **41** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 | 1 | 15 | **21** | 20 | 1 | 45 | **66** |
| Caerffili | 7 | 0 | 7 | **14** | 23 | 0 | 22 | **45** |
| Caerdydd | 8 | 0 | 15 | **23** | 22 | 0 | 78 | **100** |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 0 | 16 | **19** | 13 | 0 | 51 | **64** |
| Ceredigion | 0 | 1 | 0 | **1** | 0 | 6 | 0 | **6** |
| Conwy | 1 | 0 | 6 | **7** | 10 | 0 | 19 | **29** |
| Sir Ddinbych | 0 | 1 | 9 | **10** | 0 | 5 | 42 | **47** |
| Sir y Fflint | 5 | 1 | 19 | **25** | 12 | 5 | 58 | **75** |
| Gwynedd | 1 | 0 | 6 | **7** | 6 | 0 | 39 | **45** |
| Ynys Môn | 4 | 0 | 2 | **6** | 7 | 0 | 7 | **14** |
| Merthyr Tudful | 2 | 0 | 9 | **11** | 3 | 0 | 26 | **29** |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 10 | **11** | 0 | 1 | 34 | **35** |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 1 | 20 | **21** | 0 | 3 | 81 | **84** |
| Casnewydd | 8 | 0 | 10 | **18** | 31 | 0 | 33 | **64** |
| Sir Benfro | 2 | 0 | 9 | **11** | 6 | 0 | 36 | **42** |
| Powys | 5 | 2 | 15 | **22** | 13 | 6 | 75 | **94** |
| Rhondda Cynon Taf | 9 | 1 | 21 | **31** | 28 | 4 | 70 | **102** |
| Abertawe | 2 | 1 | 21 | **24** | 4 | 4 | 81 | **89** |
| Torfaen | 0 | 0 | 13 | **13** | 0 | 0 | 29 | **29** |
| Bro Morgannwg | 0 | 9 | 4 | **13** | 0 | 32 | 14 | **46** |
| Wrecsam | 3 | 1 | 21 | **25** | 11 | 4 | 63 | **78** |
| **Cyfanswm** | **65** | **20** | **265** | **350** | **209** | **71** | **944** | **1224** |

1.1. Mae Tabl 1a yn dangos cyfanswm o 350 o wasanaethau cartrefi plant cofrestredig yng Nghymru ar 31 Mawrth 2025. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu hyd at 1224 o leoedd cofrestredig. Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau (265) yn cael eu darparu gan ddarparwyr er-elw, sy'n cyfateb i 76% o'r holl wasanaethau cartrefi plant.

Tabl 1b Nifer y gwasanaethau maethu cofrestredig, aelwydydd gofal maeth ac uchafswm y lleoedd cofrestredig

***Ffynonellau:***
***1*** *Gwasanaethau Cofrestredig – AGC (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025)*
***2*** *Awdurdodau* Lleol *aelwydydd a lleoedd – Maethu Cymru (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024)*
***3*** *Aelwydydd a lleoedd cofrestredig nad ydynt yn perthyn i'r Awdurdodau Lleol - Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025)*

| | Nifer y **gwasanaethau gofal maeth cofrestredig** | | | Nifer yr **aelwydydd gofal maeth cofrestredig** | | | Uchafswm nifer y **lleoedd gofal maeth** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) | ***1*** Nid-er-elw (Arall) | ***1*** Er-elw | ***2*** Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) *ffigur Cymru gyfan yn unig* | ***3*** Nid-er-elw (Arall) | ***3*** Er-elw | ***2*** Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) *Ffigur Cymru Gyfan yn unig* | ***3*** Nid-er-elw (Arall) | ***3*** Er-elw |
| Blaenau Gwent | 1. | 0. | 0. | [redacted] | 10. | 10. | [redacted] | 17. | 20. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1. | 0. | 0. | [redacted] | 11. | 63. | [redacted] | 19. | 135. |
| Caerffili | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 10 | 10 | [redacted] | 17 | 20 |
| Caerdydd | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 11 | 63 | [redacted] | 19 | 135 |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | 1 | 0 | [redacted] | 12 | 35 | [redacted] | 21 | 79 |
| Ceredigion | 1 | 3 | 4 | [redacted] | 32 | 101 | [redacted] | 67 | 225 |
| Conwy | 1 | 0 | 2 | [redacted] | 5 | 72 | [redacted] | 10 | 157 |
| Sir Ddinbych | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 8 | 15 | [redacted] | 21 | 32 |
| Sir y Fflint | 1 | 1 | 2 | [redacted] | 9 | 53 | [redacted] | 21 | 118 |
| Gwynedd | 1 | 0 | 1 | [redacted] | 1 | 53 | [redacted] | 0 | 118 |
| Ynys Môn | 1 | 0 | 1 | [redacted] | 0 | 58 | [redacted] | 0 | 124 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 2 | 10 | [redacted] | 3 | 18 |
| Sir Fynwy | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 1 | 22 | [redacted] | 3 | 51 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 1 | 11 | [redacted] | 4 | 22 |
| Casnewydd | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 3 | 19 | [redacted] | 8 | 42 |
| Sir Benfro | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 12 | 29 | [redacted] | 22 | 56 |
| Powys | 1 | 1 | 0 | [redacted] | 19 | 31 | [redacted] | 39 | 63 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 2 | 26 | [redacted] | 4 | 50 |
| Abertawe | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 4 | 9 | [redacted] | 9 | 19 |
| Torfaen | 1 | 0 | 1 | [redacted] | 34 | 61 | [redacted] | 75 | 127 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 6 | 29 | [redacted] | 11 | 53 |
| Wrecsam | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 4 | 17 | [redacted] | 8 | 35 |
| Y tu allan i Gymru | 1 | 0 | 0 | [redacted] | 12 | 42 | [redacted] | 25 | 97 |
| **Cyfanswm** | 1 | 0 | 2 | 0 | 1 | 28 | 0 | 1 | 52 |

***Tabl 1b - Cafeatau data ac esboniad***

Nifer y gwasanaethau gofal maeth cofrestredig

1.2 Er bod gan bob awdurdod lleol ei wasanaeth maethu ei hun, mae pob un ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd o fewn rhwydwaith cenedlaethol Maethu Cymru. Bydd nifer gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol, felly, bob amser yn aros yn uchafswm o 22, yn unol â nifer yr awdurdodau lleol.

1.3 Mae asiantaethau maethu annibynnol (IFAs) yn wasanaethau maethu nad ydynt yn perthyn i'r awdurdodau lleol ac maent yn gallu bod yn asiantaethau er-elw a nid-er-elw. Mae AGC yn cofrestru asiantaethau maethu annibynnol yng Nghymru ond nid gwasanaethau maethu a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Mae tri darparwr maethu er-elw sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ond sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ac sydd, felly, wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Nifer yr aelwydydd gofal maeth cofrestredig ac uchafswm nifer y lleoedd maeth

1.4 Gofynnodd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant i bob IFA ar system yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) ddarparu gwybodaeth am nifer yr aelwydydd maethu cofrestredig ac uchafswm nifer y lleoedd ar 31 Mawrth 2025. Darparodd 20 o'r 22 IFA cofrestredig ddata. Mae data yn dangos nifer yr aelwydydd sy'n maethu yn ôl ardal yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddi. Nid oedd data ar gael ar gyfer y 2 IFA sy'n weddill gan nad ydynt wedi'u cofrestru ar y system CCSR.

1.5 O'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (ar 31 Mawrth 2025) mae 6 o wasanaethau maethu nid-er-elw nad ydynt yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol a 16 o wasanaethau maethu er-elw yng Nghymru gyda 983 o aelwydydd maethu yn cynnig 2,081 o leoedd. O'r rhain mae 794 o aelwydydd a 1,693 o leoedd yn rhai er-elw.

1.6 Mae cyfanswm y ffigurau ar gyfer gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol a ddarperir gan Maethu Cymru yn ffigurau cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Mae'r cylch adrodd presennol yn golygu y bydd y data ar gyfer 2024/25 ar gael ar gyfer yr adroddiad nesaf. Mae'r 22 o wasanaethau maethu a reolir gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu 2,609 o aelwydydd maethu a 4,144 o leoedd maethu.

Gwasanaethau llety diogel

1.7 Ar 31 Mawrth 2025, mae un gwasanaeth llety diogel wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae hwn yn cael ei weithredu gan awdurdod lleol ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer uchafswm o 14 o leoedd. Er hynny, mae'r cyfleuster hwn yn gwasanaethu'r ystad ddiogel yng Nghymru a Lloegr ac felly mae'n derbyn atgyfeiriadau a phlant o bob rhan o'r ddwy wlad.

## Adran 2 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad - cartrefi plant

Tabl 2a Gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025

***Ffynhonnell:*** *AGC*

| | Nifer y gwasanaethau cofrestredig **sy'n ymuno â'r farchnad** | | | Nifer y gwasanaethau cofrestredig **sy'n ymadael â'r farchnad** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nid-er-elw - Awdurdod Lleol | Nid-er-elw - arall | Er-elw | Nid-er-elw - Awdurdod Lleol | Nid-er-elw - arall | Er-elw |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Caerffili | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 1 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 1 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **0** | **21** | **0** | **0** | **4** |

2.1. Mae Tabl 2a yn dangos nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig a wnaeth ymuno â'r farchnad yng Nghymru ac ymadael â'r farchnad yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025 fel y'u cofnodwyd gan AGC. Diffinnir 'ymuno â'r farchnad' fel gwasanaethau sy'n cael eu cofrestru gan AGC yn gartref plant dros yr un cyfnod. Diffinnir 'ymadael â'r farchnad' fel yr endidau

hynny sy'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth ac sydd felly yn cael eu datgofrestru gan AGC.

2.2. Mae'r tabl yn dangos bod cyfanswm o 25 o wasanaethau cartrefi plant wedi'u cofrestru yng Nghymru dros y cyfnod yr adroddir arno. Roedd 21 o wasanaethau er-elw, roedd y 4 arall yn rhai nid-er-elw a oedd wedi'u cofrestru i'r awdurdod lleol perthnasol. Yn ystod yr un cyfnod rhoddodd 4 gwasanaeth er-elw y gorau i ddarparu gwasanaethau cartrefi plant. Felly, yn ystod y cyfnod hwn, roedd ymunwyr â'r farchnad yn llawer mwy na'r ymadawyr â'r farchnad gyda'r mwyafrif o'r ymunwyr â'r farchnad yn ystod y cyfnod hwn yn dod o wasanaethau er-elw (21 o ymunwyr er-elw o gyfanswm o 25 sef 84% o'r ymunwyr yn ystod y cyfnod).

Tabl 2b Lleoedd Cartrefi Plant Cofrestredig a ychwanegwyd at y farchnad a'u tynnu oddi yno rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025

***Ffynhonnell:*** *AGC*

| | Nifer y **lleoedd cartrefi plant cofrestredig sydd wedi'u hychwanegu at y farchnad** | | | Nifer y **lleoedd cartrefi plant cofrestredig sydd wedi'u tynnu o'r farchnad** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) | Nid-er-elw (Arall) | Er-elw | Nid-er-elw (Awdurdod Lleol) | Nid-er-elw (Arall) | Er-elw |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Caerffili | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 1 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 2 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 2 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **5** | **0** | **52** | **4** | **0** | **7** |

2.3. Mae Tabl 2b yn dangos nifer y lleoedd cartrefi plant cofrestredig a ychwanegwyd at y farchnad yng Nghymru ac a dynnwyd oddi wrthi rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025 fel y'u cofnodwyd gan AGC.  Ar gyfer cyd-destun, gall gwasanaethau gael sawl lle fel rhan o'u cofrestriad, a dyna pam mae'r ffigurau o fewn y tabl hwn yn fwy na'r rhai yn Nhabl 2a.

2.4. Mae Tabl 2b yn dangos bod cyfanswm o 57 o leoedd mewn cartrefi plant yng Nghymru wedi'u hychwanegu dros y cyfnod. Roedd 5 o'r rhain yn gartrefi awdurdodau lleol nid-er-elw ond roedd y mwyafrif (52 neu 91% o'r holl ymunwyr) yn lleoedd er- elw. Yn ystod yr un cyfnod ymadawodd 4 lle sy'n perthyn i'r awdurdod lleol a 7 lle er-elw â'r farchnad. Felly, yn ystod y cyfnod hwn ychwanegwyd llawer mwy o wasanaethau a lleoedd cartrefi plant at y farchnad na'r rhai a ymadawodd â hi.

Tabl 2c Elw/colled net gwasanaethau a lleoedd cartrefi plant cofrestredig rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025

***Ffynhonnell:*** *AGC*

| | Gwasanaethau iechyd plant | | | Cyfanswm y lleoedd cofrestredig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nid-er-elw - Awdurdod Lleol | Nid-er-elw - arall | Er-elw | Nid-er-elw - Awdurdod Lleol | Nid-er-elw - arall | Er-elw |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | -2 | 0 | 0 | -3 |
| Caerffili | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | -1 | 0 | 1 | -4 | 0 | 4 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 1 | 0 | 4 | 1 | 0 | 4 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 8 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 9 |
| Abertawe | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 6 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | **+3** | **0** | **+17** | **+1** | **0** | **+45** |

# Adran 3 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – maethu

Gwasanaethau maethu sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad

***Ffynhonnell: AGC*** - rhwng 1 Hydref 2024 – 31 Mawrth 2025

3.3 Ni wnaeth unrhyw wasanaethau maethu ymuno â'r farchnad nac ymadael â'r farchnad rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025.

Tabl 3a Aelwydydd maethu sydd wedi'u cofrestru gydag awdurdod lleol sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad (Ebrill 24 - Chwefror 2025)

***Ffynhonnell:*** **Maethu Cymru** – *(Ffigurau Cenedlaethol yn unig)*

| Nifer **aelwydydd gofal maeth yr awdurdodau lleol sydd wedi'u hychwanegu at y farchnad** | Nifer **aelwydydd gofal maeth yr awdurdodau lleol sy'n ymadael â'r farchnad** | ***Enillion/Colledion Net*** |
|---|---|---|
| 131 | 137 | **-6** |

Tabl 3b Lleoedd maethu'r awdurdodau lleol sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad (Ebrill 24- 28 Chwefror 2025)

***Ffynhonnell:*** **Maethu Cymru** – *(Ffigurau Cenedlaethol yn unig)*

| Nifer **lleoedd gofal maeth yr awdurdodau lleol sy'n ymuno â'r farchnad** | Nifer **lleoedd gofal maeth yr awdurdodau lleol sy'n ymadael â'r farchnad** | ***Enillion/Colledion Net*** |
|---|---|---|
| 170 | 194 | **-24** |

**Nodiadau:**

3.4 Mae'r data uchod am yr awdurdodau lleol wedi'i ddarparu gan Maethu Cymru. Nid oes unrhyw ddata cymaradwy ar gael ar gyfer darpariaeth nid-er-elw neu ddarpariaeth er-elw (nad yw'n ALI). Mae'r data ar nifer yr aelwydydd a lleoedd sy'n maethu yn tueddu i amrywio ac nid yw'n cael ei gasglu ar hyn o bryd fel rhan o ofynion cofrestru gan AGC.

3.5 Yn fwy cyffredinol, bydd gwaith yn cael ei wneud o fewn y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r rhaglen dileu elw i ddatblygu'r data adrodd a'i gymharedd ymhellach ar draws y sector maethu cyfan.

*Cymeradwyaethau Prif Ffrwd – Awdurdodau Lleol*

3.6 Mae data maethu'r awdurdodau lleol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â gofalwyr maeth prif ffrwd yn unig. Nid yw'n cynnwys data personau cysylltiedig sy'n ofalwyr maeth (y cyfeirir atynt yn aml fel gofalwyr sy'n berthnasau), am fod yr amserlen casglu data yn wahanol (fel yr esbonnir isod). Gofalwyr maeth prif ffrwd yw'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo i gymryd ystod o blant o anghenion amrywiol y gall yr awdurdod lleol geisio eu lleoli.

3.7 Cynyddodd nifer y cymeradwyaethau gofalwyr maeth awdurdodau lleol prif ffrwd yn 2023/24 11% o'i gymharu â 2022/23. Yn ôl Maethu Cymru ymadawodd 137 o aelwydydd prif ffrwd â'r farchnad. Mae hyn yn cymharu â 167 o aelwydydd a ymadawodd â'r farchnad yn 2022/23, sef gostyngiad o 18%.

*Aelwydydd sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad.*

3.8 Mae'r ffigurau a ddarperir yn ffigurau ar gyfer pob gofalwr maeth awdurdod lleol cofrestredig, h.y. cyfanswm y gofalwyr maeth prif ffrwd cymeradwy yn unig. Mae'r ffigurau ar gyfer aelwydydd a lleoliadau maethu sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2024 i 28 Chwefror 2025 a hwy yw'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael.

*Personau cysylltiedig (heb eu darparu yn yr adroddiad hwn)*

3.9 Mae personau cysylltiedig sy'n ofalwyr maeth yn cael eu cyfarwyddo gan y llys fel rheol ac yn darparu lleoliadau ar gyfer plant penodol, fel arfer yn rhan o deulu / rhwydwaith y plentyn. Nid yw'r ffigurau hyn yn cael eu darparu yn yr adroddiad hwn, gan eu bod yn cael eu cyflwyno'n flynyddol fel rhan o set ddata flynyddol Maethu Cymru a dylent fod ar gael o fis Gorffennaf ymlaen. Yn anecdotaidd, er hynny, mae nifer y lleoliadau hyn yn parhau i dyfu, roedd lefel y gweithgarwch asesu dair gwaith yn uwch yn 23/24 nag ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae'r asesiadau hyn yn aml yn cael blaenoriaeth uwch nag asesiadau prif ffrwd ond nid ydynt yn darparu lleoliadau sydd ar gael yn gyffredinol.

3.10 Fel rhan o gylch adrodd Maethu Cymru, bydd yn gallu darparu gwybodaeth am bersonau cysylltiedig mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**Nodiadau:**

3.11 Mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant wedi darparu'r ffigurau cyfredol, fel y daethant i law ddiwedd mis Mawrth 2025, ar gyfer yr aelwydydd a lleoliadau (nad ydynt yn perthyn i'r Awdurdod Lleol) nid-er-elw ac er-elw, yn hytrach na ffigurau ymunwyr/ymadawyr. Bydd hyn yn feincnod ar gyfer cymariaethau net mewn cylchoedd adrodd yn y dyfodol. Mae'r data yn

ymwneud ag 20 o ddarparwyr gofal maeth allan o'r 22 o ddarparwr sydd wedi'u cofrestru gydag AGC.  Mae'r holl ffigurau yn cael eu hunan-adrodd gan yr asiantaethau maethu annibynnol ac nid ydynt yn cael eu gwirhau gan Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant.

3.12 Y data a ddarperir gan Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant yw nifer yr aelwydydd maethu yn ôl ardal yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddi; statws er-elw / nid-er-elw yr asiantaeth y maent yn gweithio gyda hi a nifer yr uchafswm o welyau y maent wedi'u cofrestru ar eu cyfer.

# Adran 4 – Sefydlogrwydd Lleoliadau

Tabl 4a Nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn y cafodd plant a oedd yn derbyn gofal brofiad ohonynt ar 31 Mawrth 2024 (fel nifer a chanran)

***Ffynhonnell:*** *StatsCymru*

| Awdurdod lleol | Nifer y plant sydd ag 1 lleoliad | Nifer y plant sydd â 2 leoliad | Nifer y plant sydd â 3+ o leoliadau | Canran y plant sydd ag 1 lleoliad | Canran y plant sydd â 2 leoliad | Canran y plant sydd â 3+ o leoliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 160 | 30 | 10 | 80 | 15 | 5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 280 | 65 | 25 | 76 | 18 | 6 |
| Caerffili | 355 | 85 | 35 | 75 | 18 | 7 |
| Caerdydd | 735 | 210 | 90 | 71 | 20 | 9 |
| Sir Gaerfyrddin | 185 | 50 | 20 | 72 | 20 | 8 |
| Ceredigion | 105 | 25 | 5 | 75 | 20 | 5 |
| Conwy | 155 | 50 | 20 | 69 | 23 | 8 |
| Sir Ddinbych | 145 | 45 | 25 | 68 | 21 | 11 |
| Sir y Fflint | 170 | 35 | 30 | 73 | 14 | 13 |
| Gwynedd | 225 | 35 | 20 | 80 | 13 | 7 |
| Ynys Môn | 120 | 20 | 10 | 81 | 13 | 6 |
| Merthyr Tudful | 165 | 25 | 10 | 83 | 13 | 4 |
| Sir Fynwy | 150 | 30 | 20 | 75 | 15 | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | 195 | 40 | 15 | 78 | 16 | 6 |
| Casnewydd | 240 | 75 | 35 | 69 | 21 | 10 |
| Sir Benfro | 185 | 45 | 30 | 71 | 17 | 12 |
| Powys | 170 | 45 | 30 | 69 | 18 | 13 |
| Rhondda Cynon Taf | 500 | 90 | 45 | 79 | 14 | 7 |
| Abertawe | 365 | 90 | 35 | 75 | 18 | 7 |
| Torfaen | 255 | 60 | 35 | 72 | 18 | 10 |
| Bro Morgannwg | 235 | 60 | 40 | 70 | 18 | 12 |
| Wrecsam | 220 | 55 | 35 | 71 | 18 | 11 |
| **CYFANSWM** | **5,315** | **1,265** | **620** | **74** | **18** | **9** |

*I nodi, nid yw cyfanswm y canrannau yn symio i 100% o ganlyniad i dalgrynnu i'r rhifau cyfan agosaf

**Nodiadau:**

4.1. Mae'r cymariaethau data yn canolbwyntio ar ddau fesur allweddol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r mesur cyntaf yn olrhain cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2024 sydd â phrofiad o naill ai un, dau neu dri neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Yr ail fesur yw'r ganran o'i chymharu â chyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal yn yr ardal. Mae ffigurau (ond nid canrannau) yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf at ddibenion datgelu.

4.2. Mae'r metrig hwn yn hanfodol ar gyfer deall lleoliadau a sefydlogrwydd y farchnad. Mae plant sy'n profi lleoliadau lluosog yn aml yn wynebu teimladau cryfach o wahanu a cholled, gan ei gwneud yn anoddach iddynt ffurfio cydberthnasau ystyrlon â'u gofalwyr. Mae'r gallu i fonitro'r symudiadau hyn yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau, gan fod ymchwil yn awgrymu bod plant sy'n symud lleoliad nifer o weithiau'n llai tebygol o gyflawni'n academaidd ac yn gwneud yn waeth o ran eu canlyniadau seicolegol, cymdeithasol ac iechyd.

4.3. Mae meddu ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer lleoli plentyn yn briodol yn allweddol i sefydlogrwydd a pharhauster. Mae plant sy'n derbyn gofal yn dioddef teimladau o wahanu a cholled, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu cam-drin cyn derbyn gofal. Gall plant sy'n mynd ymlaen i gael lleoliadau niferus weld y teimladau hyn yn gwaethygu.

4.4. Er hynny, nid yw pob symudiad o fewn y system yn negyddol. Mae rhai symudiadau'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn a hefyd wrth ystyried eu dymuniadau a'u teimladau eu hunain. Mewn rhai achosion, bernir bod symudiad o ddau leoliad neu ragor yn arwydd iach o gynllunio gofal amserol yn hytrach na symudiadau di-nod. Gall cyfran isel iawn o symudiadau, i'r gwrthwyneb, nodi diffyg dewis o leoliad i ganiatáu i blant symud yn gadarnhaol fel y nodir yn eu cynlluniau gofal ac i ddiwallu eu hanghenion.

**Data**

4.5. Mae'r data'n dangos bod nifer sylweddol o leoliadau â sefydlogrwydd ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Y darlun cenedlaethol yw bod y mwyafrif helaeth (74% neu 5,310) o blant wedi cael un lleoliad. Mae gan 18% (neu 1,265) o blant sy'n derbyn gofal brofiad o ddau leoliad. Roedd gan 9% (neu 620) o blant brofiad o 3 neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn adrodd.

4.6. Nifer cyfartalog y plant sydd â phrofiad o un lleoliad mewn awdurdod lleol yw 241. Roedd gan 58 o blant brofiad o ddau leoliad ac roedd gan 28 o blant dri

neu ragor. Mae gwahaniaethau nodedig ar lefel leol er enghraifft, roedd gan Flaenau Gwent 160 o blant â phrofiad o un lleoliad, o'i gymharu â 735 yng Nghaerdydd. Er hynny, nid yw'r wybodaeth hon yn cymryd i ystyriaeth maint ardal pob awdurdod lleol a'i phoblogaeth o blant sy'n derbyn gofal.

4.7. Mae'r niferoedd cyffredinol uchaf o blant sydd â thri lleoliad neu ragor yng Nghaerdydd gyda 90, yna Rhondda Cynon Taf yn 45 a Bro Morgannwg yn 40. Er hynny mae plant sydd â 3+ o leoliadau yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf yn gyfran isel o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill, sef 9% a 7% yn y drefn honno. Mae'r cyfrannau uchaf o blant a gafodd 3 lleoliad neu ragor yn digwydd yn Wrecsam, Powys, Sir y Fflint a Sir Benfro ar lefelau rhwng 12-13%.

# Adran 5 – Cynigion Eiriolaeth

Tabl 5a Niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth yn ystod y flwyddyn 2023-

***Ffynhonnell:*** *StatsCymru*

| | Cynigion gweithredol a wnaed yn ystod y flwyddyn | Cynigion gweithredol a wnaed a lle y darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 97 | 45 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 71 | 64 |
| Caerffili | 202 | 149 |
| Caerdydd | 265 | 172 |
| Sir Gaerfyrddin | 96 | 59 |
| Ceredigion | .. | .. |
| Conwy | 494 | 38 |
| Sir Ddinbych | 118 | 27 |
| Sir y Fflint | 156 | 4 |
| Gwynedd | 21 | 6 |
| Ynys Môn | 15 | 10 |
| Merthyr Tudful | 60 | 54 |
| Sir Fynwy | 98 | 24 |
| Castell-nedd Port Talbot | 62 | 55 |
| Casnewydd | 171 | 109 |
| Sir Benfro | 45 | 35 |
| Powys | 485 | 223 |
| Rhondda Cynon Taf | 144 | 96 |
| Abertawe | 91 | 72 |
| Torfaen | 166 | 40 |
| Bro Morgannwg | 76 | 33 |
| Wrecsam | 118 | 30 |
| **CYFANSWM** | **3,051** | **1,345** |

**Nodiadau**

5.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pennu bod cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei wneud i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal a phob plentyn sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at gynhadledd amddiffyn plant.

5.2. Mae gan blant sydd mewn gofal hawl hefyd i gael mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol drwy gydol yr amser y maent yn derbyn gofal. Gall y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol neu'r Swyddog Adolygu Annibynnol ofyn am atgyfeiriad at wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol i gefnogi'r plentyn i leisio ei farn fel rhan o'r broses cynllunio gofal. Cyfeirir at hyn fel 'eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion'.

*"Cynigion Gweithredol" yn ystod y flwyddyn*

5.3. Mae'r mesur cyntaf yn y tabl uchod yn helpu'r awdurdodau lleol i asesu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth, gan hwyluso gwell cynllunio a chomisiynu yn achos y gwasanaethau hynny yn y dyfodol. Mae gwasanaethau eiriolaeth yn cynorthwyo unigolion i dderbyn gofal a chymorth ac yn sicrhau bod eu barn yn cael ei chyfleu yn gywir waeth beth yw barn yr eiriolwr neu eraill.

5.4. Fe'i diffinnir fel rhannu gwybodaeth am hawl statudol plentyn neu berson ifanc mewn rhai amgylchiadau i gael mynediad at wasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol.

*"Cynigion Gweithredol" a wnaed a lle y darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol*

5.5. Mae'r ail fesur yn y tabl hwn yn canolbwyntio ar gyfanswm nifer y "Cynigion Gweithredol" o eiriolaeth yn ystod y flwyddyn lle y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae'r metrig hwn hefyd yn galluogi'r awdurdodau lleol i asesu faint sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth ac yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro'r eiriolaeth a ddarperir i blant sydd â hawl i'w chael.

5.6. Mae'r mesurau hyn yn rhoi golwg gwerthfawr ar y sefydlogrwydd a'r cymorth a ddarperir i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, gan dynnu sylw at bwysigrwydd monitro symudiadau lleoliad a defnyddio gwasanaethau eiriolaeth i wella canlyniadau i'r plant hyn.

5.7. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cyfeirio yn unig at ble mae cynnig gweithredol yn cael ei wneud a lle mae eiriolwr annibynnol yn cael ei ddarparu. Nid yw plant na chawsant gynnig gweithredol yn cael eu cynnwys hyd yn oed os darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol ar eu cyfer. Yn yr un modd, ni fydd plant mewn gofal sydd wedi cael eu hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth annibynnol fel rhan o'r broses cynllunio gofal yn cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

## Data

*Nifer y cynigion*

5.8. Ymhlith yr awdurdodau lleol hynny sydd â'r nifer uchaf o gynigion gweithredol, mae gan Bowys 485 o gynigion gweithredol, Conwy 494, a Chaerdydd 265. Roedd y rhai sydd â'r nifer lleiaf o gynigion gweithredol yn cynnwys Ynys Môn gyda 15 o gynigion gweithredol, Gwynedd gyda 21, a Sir Benfro gyda 45.

*Cyfran yr eiriolwyr a ddarparwyd yn dilyn cynnig gweithredol*

5.9. Yn gyfrannol, gwelodd Pen-y-bont ar Ogwr eiriolwyr yn cael eu darparu mewn 64 o 71 (90%) o gynigion gweithredol; roedd gan Ferthyr Tudful gymhareb debyg hefyd gyda 54 o eiriolwyr o 60 o gynigion ac roedd gan Gastell-nedd Port Talbot gyfran o 89% gyda 55 o eiriolwyr wedi'u darparu o 62 o gynigion gweithredol.

5.10. Sir y Fflint oedd â'r gymhareb isaf o eiriolwyr a ddarparwyd i gynigion, gyda 4 (3%) o 156 o gynigion gweithredol; roedd gan Gonwy 38 (8%) o eiriolwyr o 494 o gynigion a Sir Ddinbych 27 (23%) o eiriolwyr o 118 o gynigion gweithredol. Nid oedd unrhyw ddata swyddogol ar gael ar gyfer Ceredigion, gan fod datrysiadau ar gyfer casglu'r data yn dal i gael eu harchwilio adeg ei gasglu.